Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!

# Dod i adnabod




## Meleri Wyn James



Cafodd Meleri ei magu yn Beulah ac Aber-porth. Fe raddiodd yn y Gymraeg o Goleg Prifysgol Aberystwyth ac astudiodd MA yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Mae'n ysgrifennu llyfrau i blant ac oedolion ers dros 25 mlynedd. Mae'n mwynhau darllen, coginio, brodwaith a threulio amser gyda theulu a ffrindiau.

### Crynodeb:

**Mae tir gwyllt y gors yn Nhregaron fel ail gartref i Caron, 15 oed, ac Iwan, ei ffrind gorau. Ar ôl diwrnod hir ac anodd yn yr ysgol, mae'n ddihangfa perffaith. Mae'n lle i anghofio am lwyth gwaith a phwysau cyfoedion ac i ymgolli mewn byd arall dros dro.**

**Un prynhawn mae Caron yn mynd ar grwydr ond dyw hi ddim yn dod yn ôl…**

**Nofel ddirgelwch gyffrous i'r arddegau cynnar (12–15 oed / CS3) gan yr awdures Meleri Wyn James. Mae *Cors Caron* yn cyfuno awyrgylch arallfydol a stori ddramatig sy'n symud rhwng dau fyd, a stori hudolus am chwilio, am berthyn ac am ein newid agwedd at yr amgylchedd.**

**Bydd *Cors Caron* gan Meleri Wyn James ar gael ar 20 Ebrill (£5.99, Y Lolfa).**

**Dywedwch ychydig am *Cors Caron*, eich llyfr newydd i bobol ifanc …**
Stori ddirgelwch yw hi sydd wedi ei hysbrydoli gan y gors hudol yn Nhregaron. Mae Caron, y prif gymeriad 15 oed, yn ferch gref sy'n llawn bywyd. Mae hi wedi gorfod bod yn egnïol oherwydd ei sefyllfa hi. Ar ôl i Caron fynd ar goll ar y gors mae mwy nag un cyfrinach o'r gorffennol yn dod i'r wyneb. Mae'r llyfr hefyd yn stori am fyd natur a'r newid yn ein hagwedd ni at y gors ac at fyd natur yn gyffredinol. Mae'n stori gyffrous a gobeithio y bydd darllenwyr yn ysu i ddarllen ymlaen i weld beth sy'n digwydd nesaf.

**Oedd unrhyw heriau arbennig wrth baratoi'r llyfr?**
Rwy wedi mwynhau ymgolli ym myd y gors. Fe wnes i ymchwil i ddod i nabod y lle, y bywyd gwyllt a'r pethau sy'n ei wneud mor arbennig. Fe fuais i yno sawl gwaith er mwyn ceisio dod i'w nabod a theimlo ei natur unigryw. Ond mae elfennau o gors y nofel sydd yn ddychmyg pur hefyd.

**Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau er mwyn annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er pleser?**
Darllenwch gyda nhw a gadewch iddyn nhw eich gweld chi yn ddarllen. Anogwch nhw i ddilyn eu diddordeb o ran yr hyn ry'ch chi'n ei ddarllen. Fydden i'n annog plant i feddwl, beth rydych chi'n fwynhau, beth yw'ch breuddwydion… alla i eich sicrhau hi y bydd yna gannoedd o lyfrau am y pethau hynny! Os nad yw llyfr yn eich difyrru chi, gadwch e i fod a dewiswch rhywbeth arall.

**A oes gennych unrhyw gynlluniau ar gyfer teitlau pellach?**
O, oes! Mae gen i gynlluniau o hyd. Rwy'n sgrifennu mwy o anturiaethau Nel fach ddireidus ar hyn o bryd ar gyfer llyfr sydd yn cael ei gyhoeddi yn yr haf o'r enw *Na, Nel! Yn Achub y Byd!* Mae'n cyd-fynd â sioe deuluol fydd ar lwyfan Pafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol ar y pnawn dydd Mawrth. Rwy hefyd yn sgrifennu nofel ddirgelwch i oedolion am deulu sy'n cael eu caethiwo gan y tywydd ar ynys Enlli.